

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr
Tudful**

**Datganiad Anghenion y Rhaglen
Cymorth Tai**



Cynnwys

Cyflwnia **Error! Bookmark not defined.**

Trosolwg o Ferthyr Tudful 3

Digrtrefedd..... **Error! Bookmark not defined.**

Iechyd Meddwl, Cam-drin Sylweddau ac achosion sydd yn cyd-ddidwydd.....4

Pobl Ifanc..... **Error! Bookmark not defined.**

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol5

Llety..... **Error! Bookmark not defined.**

Llety dros dro6

Y Sector Rhentu Preifat.....7

Tai'n Gyntaf ac Ailgartrefu Cyflym.....7

Adeiladu tai newydd7

Gwasanaethau Cymorth 8

Gweithio amlasiantaethol8

Cyflwyniad

Mae'r Datganiad Anghenion yn defnyddio canfyddiadau'r Asesiad Anghenion i ddynodi prif broblemau'r Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai a'i amcanion strategol.

Trosolwg o Ferthyr Tudful

Yn 55 milltir sgwâr o ran maint, Merthyr Tudful yw'r Awdurdod Unedol lleiaf yng Nghymru. Mae prif grynnodiad y boblogaeth wedi'i lleoli ym Merthyr Tudful ei hun ond mae'r ardal hefyd yn cynnwys nifer o bentrefi, sydd yn cynnwys Troedyrhiw, Aber-fan, Bedlinog a Threharris. Disgwylir i gyfanswm poblogaeth Merthyr Tudful dyfu'n raddol rhwng heddiw a 2040 a hynny'n bennaf, yn sgil mewnfudiad ond disgwylir i ganran y bobl rhwng 65 ac 80 oed i dyfu'n sylweddol.

Mae mesurau caledu a diwygiadau lles wedi cael effaith negyddol ar Ferthyr Tudful a hynny'n fwy nag mewn nifer o ardaloedd eraill yng Nghymru. Dynodwyd fod gan nifer o ardaloedd lefelau uchel o amddifadedd tai fel Tref Merthyr Tudful, Penydarren, Ynysowen a Gurnos.

Mae Merthyr Tudful yn cynnwys rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'r ganran yn uwch yng ngogledd yr awdurdod lleol, yn enwedig yn yr ardaloedd sydd yn amgylchynu Merthyr Tudful fel Penydarren, Gurnos a Gellideg yng Nghyfarthfa. Er bod lefelau amddifadedd yn is yn ne'r awdurdod lleol, mae crynnodiad sylweddol o amddifadedd yn Ynysowen a Phenydarren lle y mae "amddifadedd wedi ei ymwreiddio'n ddwfn."

Digartrefedd

Gosododd newidiadau i'r ddeddfwriaeth ddigartrefedd, yn sgil pandemig COVID19, gyfrifoldeb statudol ar bob Cyngor i ddarparu llety dros dro ar gyfer pob unigolyn/aelwyd ag 'angen wedi ei flaenoriaethu' os credir eu bod yn ddigartref a hynny hyd nes y gellid sicrhau llety fforddiadwy, parhaol. Arweiniodd hyn at gynnydd sylweddol yn niferoedd y sawl a gyflwynodd eu hunain yn ddigartref o Fawrth 2020.

Mae deddfwriaeth a pholisi Llywodraeth Cymru sydd wedi eu crynhoi yn yr Asesiad Anghenion yn nodi'n glir, bwysigrwydd osgoi digartrefedd lle bynnag y bo hynny'n bosib.

Mae hyn yn bwysig, yn benodol ym Merthyr Tudful lle y mae heriau unigryw er mwyn datblygu ac adeiladu tai newydd. Mae'r Asesiad Anghenion yn dangos fod yr angen am lety yn uwch o lawer na'r ddarpariaeth sydd ar gael drwy berchnogaeth cartref, rhentu preifat a thai cymdeithasol. Mae'r Tîm Atebion Tai yn aml yn gorfod dibynnu ar fusnesau gwely a brecwast a llety lleol er mwyn darparu'r cymorth llety dros dro hwn (LIDD.)

Mae gwasanaethau digartrefedd a'r Grant Cymorth Tai (GCT) yn canolbwyntio ar ataliaeth, fodd bynnag, mae adborth gan rhanddeiliaid ar y cynnydd diweddar wedi tynnu sylw at y modd y mae'n

rhaid canlbwyntio ar reoli mewn sefyllfa o argyfwng. Dynododd rhanddeiliaid yr angen i ailffocysu ar atlaiaeth gan gynnig cymorth yng nghynt yn y system er mwyn atal digartrefedd. Roedd y gwasanaethau'n awyddus i gydweithio'n hyblyg er mwyn datblygu siop un stop yn y fwrdeistref.

Iechyd Meddwl, Cam-drin Sylweddau ac achosion sydd yn cyd-ddigwydd

Mae'r Asesiad Poblogaeth yn tynnu sylw at y ffaith fod gan Ferthyr Tudful a Chwm Taf y cyfraddau uchaf o afiechydon iechyd meddwl a llesiant yng Nghymru.

Mae atgyfeiriadau i wasanaethau'r GCT yn cofnodi anghenion sylfaenol, eilaidd a thrydyddol. Iechyd meddwl oedd yr ail angen sylfaenol uchaf a'r uchaf o ran anghenion eiliadd.

Mae Merthyr Tudful ymysg yr ardal sydd yn cofnodi'r mwyaf o achosion sydd yn ymwneud â cham-drin sylweddau, iechyd meddwl a llesiant gwael yng Nghymru. Mae cam-drin sylweddau fel arfer yn cyd-ddigwydd â phroblemau iechyd meddwl ymhlith yr unigoliuon sydd yn cael eu hatgyfeirio i'r gwasanaethau GCT.

Tynodd yr Asesiad Poblogaeth sylw at ofynion tai nad sydd yn cael eu cyflawni ymysg oedolion sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae problemau tai yn aml yn reswm dros pam fydd unigolyn yn cael ei dderbyn neu ei aildderbyn i ofal iechyd meddwl yr adran cleifion mewnol. Mae unigolion sydd yn dioddef o broblemau iechyd meddwl yn fwy tebygol o fyw mewn llety rhent ac yna aml, problemau iechyd meddwl fydd y prif reswm dros y ffaith fod eu tenantiaeth yn dod i ben.

Mae'r Cyngor wedi gweld cynnydd blynyddol mewn atgyfeiriadau iechyd meddwl i'r GCT, fodd bynnag, yn sgil pandemig COVID-19, disgwylir y bydd hyn yn codi'n sylweddol.

Tynodd rhanddeiliaid sylw at gynnydd yn lefelau achosion problemau iechyd meddwl cymhleth a'u risgiau a'r hyn gafodd eu hatgyfeirio at wasanaethau cymorth ers y pandemig.

Mae gan yr ardal y gyfradd uchaf o farwolaethau o ganlyniad i gyffuriau ac alcohol yng Nghymru. Er bod niferoedd yr atgyfeiriadau fel angen sylfaenol i wasanaethau'r GCT yn sgil cam-drin sylweddau yn isel, mae adborth gan rhanddeiliaid yn dynodi fod yr angen am atgyfeiriadau'n codi wedi cymorth cychwynnol.

Mae ymgysylltiad gan rhanddeiliaid ar gyfer yr adroddiad hwn yn cadarnhau ei fod yn heriol i ymgysylltu â gwasanaethau cam-drin sylweddau'r GIG, yn enwedig gwasanaethau adsefydlu a dadwenwyno. Disgrifiodd darparwyr y GCT yr angen i reoli'r problemau hyn trwy eu cymorth.

Tynodd rhanddeiliaid sylw at yr her o gyflawni anghenion unigolion nad sydd yn cyflawni meini prawf cymhwysedd y gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol. Mae eu anghenion yn fwy na'r hyn y gall y gwasanaethau GCT eu cynnig.

Mae heriau o ran cyrchu gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer y rheini sydd ag anghenion mawr a'r rheini nad sydd yn cyflawni'r meini prawf cymhwysedd.

Mae ymchwil yn tynnu sylw at heriau sylweddol wrth gyrchu gwasanaethau iechyd meddwl a cham-drin sylweddau'r GIG.

Mae'r termau cyd-ddigwydd neu diagnosis deuol fel arfer yn cyfeirio at broblem iechyd meddwl sydd yn cyd-ddigwydd â cham-drin sylweddau. Mae'r berthynas rhwng iechyd meddwl a cham-drin sylweddau yn gymhleth ac yn un all newid dros amser.

O'i gymharu ag unigolion sydd â phroblem iechyd meddwl yn unig, mae'r rheini sydd â phroblem cam-drin sylweddau a phroblemau iechyd meddwl yn fwy tebygol o brofi'r canlynol:

- problemau iechyd meddwl mwy dwys
- mwy o risg o achosi hunanladdiad
- problemau tai ansefydlog
- problemau ariannol
- bod yn llai tebygol o ymgysylltu ag ymyriadau triniaethau
- bod yn fwy tebygol o gwmpo rhwng bylchau'r gwasanaethau

Cadarnhaodd rhanddeiliaid ei fod yn heriol i wasanaethau cymorth dderbyn cymorth gan wasanaethau iechyd meddwl y GIG a gan wasanaethau cam-drin sylweddau.

Mae gwasanaeth rhanbarthol, arbenigol yn awr wedi cael ei sefydlu ond mae'n rhy gynnar i'w werthuso'n llawn.

Pobl Ifanc

Mae pobl ifanc sydd rhwng 16 a 25 oed yn ffurfio rhan sylweddol o'r bobl sydd yn cyflwyno'u hunain yn ddigartref ac yn aml, maent yn gadael eu cartrefi yn sgil tor deuluol.

Dyma'r grŵp sydd hefyd yn derbyn y pedwerydd nifer uchaf o atgyfeiriadau ar gyfer cymorth y GCT.

Yn ddiweddar, gofynnodd Llywodraeth Cymru i bob Cyngor archwilio eu hymateb rhianta corfforaethol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd wedi derbyn gofal ac i'w anghenion llety yn y dyfodol.

Mae angen gwasanaethau dynodedig ar bobl ifanc sydd yn cynnig cymorth addas er mwyn datblygu sgiliau a gallu symud ymlaen i lety parhaol.

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Mae'r niferoedd o fenywod sydd yn cyflwyno'u hunain yn ddigartref yn sgil trais yn y cartref hefyd ymhlith yr uchaf pob blwyddyn. Dyma'r trydydd angen uchaf sydd yn cael ei atgyfeirio at wasanaethau cymorth y GCT.

Mae'r Cyngor yn darparu saith uned o lety lloches yn ogystal â dwy uned wasgaredig. Mae cymorth pan y bydd ei angen (55 uned) ar gael yn ogystal â chymorth i alluogi menywod i aros yn eu cartrefi eu hunain.

Mae adborth gan rhanddeiliaid yn dynodi fod y lloches yn derbyn atgyfeiriadau gan bobl sydd ag anghneion dwys a lefelau uchel o risg sydd yn dynodi fod angen dadansoddi gwasanaethau VAWDASV ymhellach.

Pobl Hŷn

Bydd y nifer y bobl 65 oed a hŷn a fydd yn ei chael hi'n anodd edrych ar ôl eu hunain yn ddiogel neu wneud tasgau beunyddiol yn codi 34% ym Merthyr erbyn 2040. Fel arfer, diffyg gallu neu'r sylweddoliad o hyn sydd yn sbardun iddynt gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol.

Bydd cynnydd hefyd o 61% mewn pobl, dros 65 oed sydd yn dioddef o dementia ym Merthyr erbyn 2040 yn ogystal â chynnydd o 46% mewn cwympiadau ymysg y rheini sydd dros 75 oed. Mae un ymhob tri o bobl yn gadael eu cartref ac yn symud i ofal hirdymor wedi iddynt gael cwmp.

Llety

Mae gan Ferthyr Tudful gyfradd uwch o hen stoc tai, anaddas, yn enweidig tai teras nag y sydd yn unman arall yng Nghymru.

Mae angen dybryd am eiddo un neu ddwy ystafell wely yn y Fwrdeistref. Mae'r galw mwyaf yn wardiau'r Dref, Dowlais, Gurnos, Cyfarthfa a Phenydarren.

Mae pedwar deg y cant o'r galw am lety un ystafell wely yn dod gan ymgeiswyr sydd o dan 35 oed.

Mae hyn yn rhoi pwysau ar ddarpariaeth llety un ystafell wely gan fod prinder llety un ystyfaell wely yn y fwrdeistref.

Llety dros dro

Mae newidiadau i ddeddfwriaeth ddigartrefedd o ganlyniad i bandemig Covid19 yn gosod cyfrifoldeb statudol ar y Cyngor i ddarparu llety dros dro ar gyfer pob unigolyn/aelwyd sydd mewn 'angen sydd wedi ei flaenoriaethu' os credir eu bod yn ddigartref a hynny hyd nes y gellir sicrhau llety parhaol, fforddiadwy. Arweiniodd hyn at gynnydd mewn digartrefedd ers Mawrth 2020.

Mae'r Tim Atebion Tai yn aml yn galw ar fusnesau gwely a brecwast a llety lleol i ddarparu llety dros dro (LIDD.)

O 29 Hydref 2021, roedd 157 o bobl mewn LIDD. Dynododd ddadansoddiad o'u anghenion cymorth fod gan oddeutu dreian ononynt anghenion dwys.

Yn sgil prinder llety fforddiadwy ar gyfer un person unigol yn y Fwrdeistref, bach iawn o lety symud ymlaen sydd ar gael ac mae'r stoc LCC yn anigonol ac nid yw'n ateb y galw. Disgwylir y bydd llawer o bobl yn parhau i fod mewn Llety Gwely a Brecwast a LIDD arall am beth amser hyd nes y gellir dod o

hyd i lety parhaol. Yn 2020/21, daeth 58 uned, llety person unigol ar gael ymhob un o 4 LCC Merthyr Tudful.

Mae gwasanaethau hefyd yn gweld newidiadau o ran disgwyliadau ac ymddygiad defnyddwyr y gwasanaeth ac mae mwy yn gymwys ar gyfer LIDD. Mae rhai yn dwyn lleoliadau a gynorthwyr i ben yn fwriadol yn y gobaith y cânt gynnig LIDD mewn Gwely a Brecwast lle y bydd llai o graffu nac y sydd mewn prosiectau llety 24/7 a gynorthwyr.

Y Sector Rhentu Gyhoeddus

Mae'r defnydd o lety a ddarperir gan landlordiaid preifat wedi bod yn bwysig er mwyn atal digartrefedd neu ddarparu llety symud ymlaen o lety dros dro.

Mae'r Tîm Lwfans Tai Lleol (LTLI) yn darparu budd-dal tai ar gyfer tenantiaid sydd yn rhentu llety yn y sector breifat yng Nghymru. Mae'n cael ei dalu i'r sawl sydd angen rhentu lle diogel i fyw. Yn 2016, cyhoeddodd y llywodraeth ei bod yn rhewi cyfraddau LTLI sydd yn golygu fod nifer o aelwydydd yn ei chael hi'n anodd talu'r gwahaniaeth rhwng eu rhent a'u Lwfans Tai Lleol.

Mae cost rhentu'n breifat yn newid yn gyflym ac ar gyfradd wahanol i'r wybodaeth a wirir yn genedlaethol. Fodd bynnag, roedd rhent lleol, ar gyfartaledd, dros £200 ar gyfer pob mis ar y calendr a hynny ar gyfer llety un ystafell wely a dros £250 ar gyfer pob mis calendr ar gyfer llety dwy ystafell wely.

Mae llai o landlordiaid preifat yn barod i dderbyn pobl drwy'r Cyngor gan fod galw uchel yn codi'r prisiau a'r niferoedd o bobl sydd yn gwneud ceisiadau. Mae landlordiaid yn dueddol o ffafrio unigolion sydd yn defnyddio incwm preifat yn hytrach na LTLI.

Tai'n Gyntaf ac Ailgartrefu Cyflym

Mae'r Cyngor wedi comisiynu nifer fechan o unedau ar gyfer ailgartrefu cyflym drwy fodel Tai'n Gyntaf. Mae'r dull hwn o weithio'n cael ei adolygu yn sgil heriau dod o hyd i lety ym Merthyr Tudful.

Adeiladu cartrefu newydd

Mae argyfwng tai fforddiadwy ym Merthyr Tudful. Mae'r Cyngor wedi datblygu rhaglen ddatblygu tair blynedd, yn unol â Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Dylai ddarparu 170 uned o lety dros y tair blynedd nesaf a bydd 104 ohonynt yn llety un ystafell wely. Mae'r unedau yma'n cynnwys datblygiadau sydd ar hyn o bryd 'yn fyw ar y safle' a'r rheini nad sydd wedi dechrau eto ond sydd wedi eu hamserlenni i fod wedi'u cwblhau erbyn Mawrth 2024.

Mae'r Cyngor yn disgwyl dechrau ar ddatblygiadau erbyn diwedd 2022/23 ac yn ystod 2023/4 a fydd yn darparu 130 o unedau pellach. Byddant yn barod i'w defnyddio wedi 2023/4.

Fodd bynnag, os bydd yr 'angen sydd wedi ei flaenoriaethu' ar gyfer tai yn parhau i fod wedi'i atal dros dro, fel y digwyddodd yn ystod y pandemig, bydd y galw am dai i symud ymlaen iddynt a thai parhaol yn cynyddu.

Gwasanaethau Cymorth

Mae rhai grwpiau o bobl yn aml i'w gweld yn cyflwyno'u hunain yn ddigartref neu'n cael eu hatgyferio at wasanaethau cymorth y GCT. Dau grŵp allweddol yw pobl sengl sydd o dan 25 oed ac hŷn a chyndroseddwyd sydd yn cael eu rhyddhau o'r carchar. Oddi fewn i'r grwpiau hyn, mae amrywiaeth eang o anghenion. Cyn i'r newidaidau gael eu gwneud i'r ddeddfwriaeth yn sgil pandemig COVID19, ni fyddai llawer ohonynt wedi bod yn gymwys am gyfrifoldeb statudol i ddarparu llety dros dro. Fodd bynnag, mae gan lawer amrywiaeth o anghenion cymhleth fel problemau iechyd meddwl, cam-drin sylweddau neu gyfuniad o'r ddau.

Mae llety a gynorthwyr a chymorth pan fo angen wedi gweld cynnydd yng ngymhlethdod yr angen a'r lefel o risg ymhlith yr unigolion a atgyfeiriwyd ers Mawrth 2020. Mae'n rhaid i wasanaethau cymorth ailwerthuso effaith COVID-19 arnynt ac ar y math o wasanaeth y dylent eu darparu.

Mae adborth gan rhanddeiliaid yn codi pryderon ynghylch yr her o gael trefniadau cyllido blynyddol sydd yn eu rhwystro rhag cyflogi staff parhaol ac sydd yn arwain at drosiant uchel a tharfu ar gleientiaid. Codwyd pryderon yn ogystal ynghylch gofynion contractau y GCT o ran yr hyn y gellir eu darparu a sut.

Codwyd hefyd y ffaith fod gwasanaethau'n ffocysu ar reoli mewn argyfwng, ers y pandemig ac mae angen datblygu dulliau gwaith, ataliol.

Mae angen archwilio a chynorthwyo darparwyr i gydgyllunio gwasanaethau sydd yn cyflawni anghenion unigolion yn well yn ogystal â chaniatáu hyblygrwydd i ddatblygu gwasanaethau sydd yn cynyddu capasiti ac atal digartrefedd fel siopau un stop a chynghor.

Gweithio amlasiantaethol

Mae amrywiaeth o asesiadau a dadansodiadau gan yr Asesiad Anghenion yn cadarnhau lle y mae nifer o asiantaethau'n rhan o'r broses fod trefniadau rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid yn hollbwysig a hynny er mwyn cael y gofal gorau i unigolion.

Mae ymchwil hefyd yn dynodi'r heriau y gall rhai pobl eu profi wrth geisio cyrchu gwasanaethau'r GIG fel iechyd meddwl a cham-drin sylweddau.

Mae nifer uchel o gyndroseddwyd yn cael eu hatgyferio at y gwasanaeth tai a chymorth ac mae cydweithio agos â'r Gwasanaeth Prawf yn hanfodol.

Roedd asiantaethau'n ganmoliaethus o'r cymorth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu i unigolion sydd yn cyflwyno'u hunain yn ddigartref. Fodd bynnag, teimlodd LCC a darparwyr cymorth fod angen ailffocysu a gwella'r bartneriaeth â iechyd, y Gwasanaeth Prawf ac Addysg a hynny er mwyn gwella'r ymateb amlasiantaethol i unigolion ac yn strategol, ar draws y fwrdesitref a'r rhanbarth.

Cafodd pryderon hefyd eu codi ynghylch maint ac ansawdd y wybodaeth a rennir am bobl gan yr asiantaethau hyn sydd yn golygu fod rhaid i unigolion ailadrodd eu straeon nifer fawr o weithiau. Mae angen gwella'r modd y mae data'n cael ei gasglu ar draws asiantaethau a'i alunio â fframweithiau cenedlaethol y cytunwyd arnynt er mwyn gwella'r modd yr hysbysir y cynllunio ar gyfer gwasanaethau'r dyfodol.